# Bwletin Rheoli Adnoddau Naturiol

# Natural Resource Management Bulletin

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rhifyn 14 – Awst 2014

## Y Gronfa Natur

**Llu o Geisiadau i'r Gronfa Natur**

Ar ôl y cyhoeddiad y mis diwethaf am y ddau brosiect cyntaf i'w cymeradwyo dan y Gronfa Natur, mae rhagor o geisiadau wedi dod i law. Fe'n plesiwyd yn fawr gan yr ymateb – erbyn hyn, mae 36 o gynigion wedi'u derbyn yn ffurfiol i'w hasesu. Rydym yn parhau i drafod nifer o gynigion drafft eraill, ynghyd â syniadau newydd ar gyfer cydweithio, ac yn helpu i'w datblygu. Mae rhai o'r prosiectau a gyflwynwyd yn rhai hynod ddiddorol ac mae'n braf gweld bod nifer ohonynt wedi deillio o'r digwyddiadau i drafod Ardaloedd Gweithredu Byd Natur a gynhaliwyd ym misoedd Mehefin a Gorffennaf. Mae llawer iawn o syniadau newydd eraill yn dal i gael eu cyflwyno hefyd. Cofiwch gadw golwg ar ein gwefan am restr o'r holl gynigion a gyflwynwyd. Bydd ar gael cyn hir ac yn cael ei diweddaru'n rheolaidd. Bydd manylion cyswllt hefyd ar gyfer y rheini a ddaeth i'r digwyddiadau i drafod Ardaloedd Gweithredu Byd Natur, a hynny er mwyn ichi i gyd fedru cadw mewn cysylltiad â'ch gilydd a chydweithio pryd bynnag y bo modd. Os ydych wedi cyflwyno cynnig yn barod, mae'n bosibl y byddwn wedi cysylltu â chi eisoes, ond byddwn yn cysylltu â chi'n fuan p'un bynnag. Mae amser o hyd ichi gyflwyno cynigion newydd. Cofiwch mai 1 Tachwedd yw'r dyddiad cau, felly os oes gennych unrhyw gynigion posibl, dylech gysylltu â ni i gael cymorth ac esboniad am sut i wneud cais.

Am ragor o wybodaeth ar sut i wneud cais, ewch i: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/nature-fund/?skip=1&lang=cy neu cysylltwch â ni ar NaturalResourceManagement@wales.gsi.gov.uk

## Bil yr Amgylchedd

Ar ôl cyhoeddi *Tuag at Reoli Adnoddau Naturuol Cymru yn Gynaliadwy*, papur gwyn y Llywodraeth ar y Fil yr Amgylchedd, mae'r gwaith yn parhau i baratoi'r Bil ar gyfer ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn adolygu ein dull o gasglu a chyflwyno tystiolaeth a'r modd yr ydym yn pennu'r ymrwymiadau strategol ar gyfer cynllunio adnoddau naturiol a'u rheoli ar draws Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n bwriadu paratoi adroddiad interim ar y dulliau o adrodd ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru a bydd dogfen drafod yn cael ei chyhoeddi yng ngwanwyn 2015, yn sail ar gyfer cynllunio adnoddau naturiol yn strategol. Bydd y naill ddogfen a'r llall yn sylfaen ar gyfer yr Adroddiad statudol cyntaf ar Sefyllfa

Adnoddau Naturiol a'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol a gyhoeddir yn 2016, yn amodol ar basio'r Bil yn llwyddiannus.

I gael rhagor o wybodaeth am Fil yr Amgylchedd a'r Papur Gwyn, ewch i'r dolenni isod:
Bil yr Amgylchedd Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd

## Ymchwil i Dalu am Wasanaethau Ecosystemau

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i PES, sef y system Talu am Wasanaethau Ecosystemau a sut gall y system ein helpu i gynnal ein polisïau ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Yn aml, nid yw'r buddiannau cymdeithasol ac economaidd a grëir gan ein hadnoddau naturiol ar ffurf Gwasanaethau Ecosystemau yn cael eu gwerthfawrogi. Gellir defnyddio'r system PES i annog rheolwyr tir ac eraill i gynyddu cydnerthedd ein hecosystemau a chynnal y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu.

Cynhaliwyd yr ymchwil er mwyn ein helpu ni i ddeall y cyfleoedd, y rhwystrau a'r cyfyngiadau yn y farchnad ac adnabod y meysydd gwaith o ran rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy PES. Mae adroddiad terfynol Cascade a'u partneriaid Eftec ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru- Talu am Ecosystemau

Ar yr un pryd, comisiynwyd adroddiad ar wahân i'r hyn y gallai'r trydydd sector ei wneud i hwyluso a chefnogi'r gwaith o gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio rhaglen PES. Gofynnwyd i Resources for Change a'u partneriaid URSUS gynnal ymchwil i'r cyfleodd a'r rhwystrau sy'n atal cyrff yn y trydydd sector rhag ymgysylltu â thirfeddianwyr, busnesau a'r diwydiant i gynnal gwasanaethau ecosystemau.

Mae eu hadroddiad terfynol yn disgrifio'r cyfleoedd sydd ar gael i'r trydydd sector ddatblygu'r buddiannau cymdeithasol ac economaidd y mae ein hamgylchedd naturiol yn eu creu. Mae crynodeb gweithredol wedi'i atodi ac os hoffech gopi o'r adroddiad llawn, cysylltwch â ni. Yn y cyfamser, byddwn yn datblygu rhaglen fapio PES fydd yn cynnwys manylion y camau nesaf y byddwn yn eu cymryd yn y misoedd sydd i ddod.

Business and
Ecosystems Final Exe

## Meysydd eraill o ddiddordeb

## Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014: Ymgynghoriad ar y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru

Mae Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu Panel Cynghori Amaethyddol ar gyfer Cymru gyda'r nod o helpu'r diwydiant amaethyddol i weithredu'n fwy proffesiynol. Ar 7 Awst 2014, agorwyd ymgynghoriad oedd yn gofyn barn pobl ar gyfansoddiad a swyddogaethau'r Panel. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 30 Hydref 2014.

Bydd y Panel yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â'r sector amaethyddol, gan gynnwys hybu gyrfaoedd a chynghori Gweinidogion Cymru ar faterion allai effeithio ar ddyfodol y diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Bydd yn rhaid i'r Panel ychwanegu at y gwaith y mae'r Bwrdd

Cyflogau Amaethyddol eisoes wedi'i wneud a helpu i gynyddu nifer y newydd-ddyfodiaid sydd wedi cael addysg a hyfforddiant dda sy'n ymuno â'r diwydiant. Mae'n rhaid i ni gyflwyno diwydiant amaethyddol i'n pobl ifanc a'n newydd-ddyfodiaid sy'n groesawgar, sy'n gwobrwyo sgiliau, profiad a chymwysterau ac sy'n rhoi cyfle i'r unigolion dyfu'n bersonol ac yn broffesiynol.

Darllenwch ragor am yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru:
Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru

## Dirprwy Weinidog yn lansio cynlluniau i godi safonau iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru

Mae'r Dirprwy Weinidog Rebecca Evans wedi datgan ei chynlluniau i wella safonau iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru.

Cynllun deng mlynedd yw'r Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, a'i nod yw annog rhagor o weithio mewn patneriaeth â'r diwydiant a chreu dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Bydd hyn yn cynnwys gwell monitro a gwerthuso a bydd yn rhan o waith parhaus Llywodraeth Cymru i gryfhau'r gandwyn fwyd a chefnogi economi cefn gwlad.
Cafodd y Fframwaith ei landio gan y Dirprwy Weinidog gyda thîm o arbenigwyr a benodwyd er mwyn helpu i'w roi ar waith. Daw aelodau'r paneol o gefndiroedd amrywiol, a'u rôl yw cynghori Llywodraeth Cymru ar les anifeiliaid ac ar atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid yng Nghymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith yma: Y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid

## Menter Trefi Taclus

Mae John Griffiths, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon, wedi cyhoeddi y bydd £2,209,292 yn cael ei roi i fenter *Trefi Taclus*. Bydd yr arian yn cefnogi 75 o brosiectau er mwyn helpu cymunedau i wella eu hardaloedd lleol drwy daclo problemau fel taflu ysbwriel, tipio anghyfreithlon, cŵn yn baeddu a fandaliaeth. Bydd y prosiectau'n helpu i weddnewid tir ledled Cymru sydd ddim yn cael ei ddefnyddio a'i droi yn ardaloedd cadwraeth natur, gerddi cymunedol, rhandiroedd ac ardaloedd hamdden y gall y gymuned gyfan eu mwynhau.

Rhoddwyd £1,172,826 i brosiectau a arweinir gan awdurdodau lleol a £259,922 i brosiectau cymunedol. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi £35,000 yr un i awdurdodau lleol Cymru er mwyn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd leol. Bydd rhestr o'r prosiectau ar y wefan yn fuan:
Trefi Taclus

## Gwobrau Dewi Sant

### Enwebwch am Wobr Dewi Sant nawr

Agorodd Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, yr enwebiadau ar gyfer Gwobrau Dewi Sant 2015 am hanner dydd ddydd Llun 21 Gorffennaf a galwodd ar bawb i fachi'r cyfle unwaith eto i gydnabod pobl eithriadol yn eu sectorau a'u cymunedau.

O'r 8 categori gwobrwyo mae'r canlynol yn arbennig o berthnasol i unigolion, grwpiau neu dimau eithriadol sy'n gweithio yn y sectorau amgylcheddol a cysylltiedig yng Nghymru, sef:

• Dinasyddiaeth

• Menter
• Arloesedd a Thechnoleg
• Rhyngwladol
• Gwobr Arbennig y Prif Weinidog

Mae enwebiadau'n cau ar 28 Hydref 2014.

Ewch at www.gwobraudewisant.org.uk (neu Twitter @gwobraudewisant) am wybodaeth. Byddem yn ddiolchgar iawn os allech gefnogi'r Gwobrau eto a phostio neu ddosbarthu'r wybodaeth a'r ddogfennaeth ynghlwm â'r neges hon o fewn yn eich sefydliad ac i unrhyw fudd-ddeiliaid allanol gallai elwa arnynt. Enwebwch nawr!
gwobraudewisant

## Mynnwch yr wybodaeth ddiweddaraf

I ddysgu mwy am y rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol, ewch i: Rhedi Adnoddau Naturiol

Mae'r tudalennau gwe yn cynnwys Cwestiynau Cyffredin, pecyn gwybodaeth a rhai astudiaethau achos.

Gallwch hefyd ddysgu am y datblygiadau diweddaraf ar Facebook a Twitter trwy ddilyn @WG_NatResMin a hoffi tudalen Facebook Llywodraeth Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ymuno â'r rhestr bostio, e-bostiwch ni ar naturalresourcemanagement@wales.gsi.gov.uk